

# Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Mai 2023

Ar 23 Mai 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 14 Gorffennaf 2023.

